



Y
Treigladau

Beth yw'r treigladau?

Treiglad yw pan fydd llythyren gyntaf gair yn newid.

Gan amlaf, dim ond y llythyren gyntaf fydd yn newid.

Mae'r Gymraeg yn un o blith ychydig iawn o ieithoedd yn y byd sy'n defnyddio'r treiglad.
Mae pob iaith geltaidd yn defnyddio treigladau, sef Gwyddeleg, Manaweg, Gaeleg yr Alban, Cernyweg, Llydfaweg a Chymraeg.

Gan amlaf, y gair yn union o flaen y gair fydd yn achosi'r treiglad.

Mae 3 math gwahanol o dreiglad – meddal, trwynol a llaes.

Dydy'r treigladau ddim yn effeithio ar bob llythyren yn yr wyddor...

treiglad meddal – 9 llythyren

treiglad trwynol – 6 llythyren

treiglad llaes – 3 llythyren


Tabl Treiglo	Meddal	Trwynol	Llaes
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	/	ng	
ll	l		
m	f		
rh	r		

Y Treigladd Meddal




gwreiddiol	treigladd
p	b
t	d
c	g
b	f
d	dd
g	-
ll	l
m	f
rh	r


Rheolau'r Treigladd Meddal...




Bydd enwau
benywaidd
unigol yn
treiglo'n feddal
ar ôl y fannod



Bydd ansoddeiriau
sy'n disgrifio ebu
yn treiglo'n feddal



Bydd enwau ac
ansoddeiriau yn
treiglo'n feddal
ar ôl 'yn' (yn
golygu 'is')




Bydd gwrthrych
berf bersonol
gryno yn treiglo'n
feddal


Rheolau grŵp 2 ...




Bydd treiglâd
meddal ar ôl
yr arddodiaid.



Bydd TM ar ôl y
rhagenwau 'dy' ...
dy **b**ensil
dy **w**raig



Bydd berfau'n
treiglo'n feddal ar
ôl 'A' ar ddechrau
cwestiwn ...
A **w**elaist ti'r
ddrama?




Bydd berfau
negyddol yn treiglo'n
feddal ag eithrio P, T
a C fydd yn treiglo'n
l्लाes

Rheolau grŵp 3 ...



Bydd TM ar ôl y
rhagenw 'ei'
(gwr) ...
ei **g**ot e
ei **f**ag e



Bydd ebu yn
treiglo'n
feddal ar ôl
'un'.



Bydd enwau
yn treiglo'n
feddal ar ôl
'dau' a 'dwy'.



Rhaid treiglo'n
feddal wrth
gyfarch ...
Bore da, **b**lant
Gyfeillion, croeso
i'r ...

Rheolau grŵp 4 ...

Bydd enwau
sy'n dilyn
ansoddair yn
treiglo'n
feddal,

Bydd TM ar ôl y
cysylltair 'neu' ...
ci neu **g**ath

Bydd TM ar ôl 'dyma'
neu 'dyna' ...
Dyna **dd**a ...
Dyma **w**aith gwych

Bydd TM ar ôl
'mor'
mor **f**awr â

Y Cwm, Huw Chiswell

Wel shwt mae yr hen frind?
Mae'n braf cael dy weld di gartref fel
hyn.
Dyn ni ddim wedi cwrdd,
Ers i ti hel dy bac
A rhedeg i ffwrdd
Ac rwy'n cofio nawr
Ni'n meddwl bo ni'n fechgyn mawr
Cerdded gyda'n tade
Y llwybr hir l'r pylle
O la la la la

'Sneb yn sicr o'r gwir
Paham i ti fynd, a thorri mor glir
Mae rhai wedi sôn
Fod y cwm yn rhy gul i fachgen fel Siôn
Wyt ti'n cofio'r tro?
Ar lethre'r glo
Sgathru ein glinie
Wrth ddringo am y gore
O la la la la

CYTGAN

Y graig yn sownd o dan ein traed
A chariad at y cwm yn berwi yn ein gwaed
Y graig yn sownd o dan ein traed
A chariad at y cwm yn berwi yn ein gwaed

O fe fu newid mawr
Ers iddi nhw gau yr holl bylle na lawr
Fel y gweli dy hun
Does dim nawr i ddal y bois rhag y ffin

A thithe wedi magu blas
Am ragor o awyr las
Ond rwy'n credu taw ti oedd y cyntaf i weld
Y tywydd ar ein gorwel
O la la la la



Gwaith Cartref / Dysgu Cyfeiriol

- Adolygu'r rheolau sillafu.
- Adolygu a dysgu'r rheolau treiglo
- Prawf sillafu yn y ddarlith nesaf!

Y Treigladd Meddal

- Dyma'r llythrennau sy'n newid:

• c > g

• p > b

• t > d

g > __

b > f

d > dd

ll > l

m > f

rh > r

Y Treigladd Meddal

- 1. Rwyf i'n dod o _____ (Caerfyrddin) yn wreiddiol.
- 2. Byddai'n well gen i _____ (gyrru) na cherdded.
- 3. Darllenais _____ (llyfr) ardderchog yn ystod y gwyliau.
- 4. Mae gan blant heddiw lawer gormod o _____ (teganau).
- 5. Mae'r gyfres deledu Pobol Y Cwm yn _____ (poblogaidd) iawn.
- 6. Mae arno fe _____ (can punt) i fi.
- 7. Bwyttodd ei _____ (brecwast) i gyd.